# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)02-08 (p3): 31 Ionawr 2008

## Cyfeirnod y ddeiseb P-03-076: Rheolau tynnach ar allyriadau o Orsaf Bwer Aberddawan

**Geiriad y ddeiseb: Mae geiriad y ddeiseb i'w weld ym mhapur PET(3) 02-08 (p3A).**

### Diben

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y ddeiseb hon, a gyflwynwyd gan Gyfeillion y Ddaear y Barri a'r Fro.

### Cefndir

Mae'r deisebwyr yn galw am amodau tynnach ar lygredd o Orsaf Bwer Aberddawan. Mae'r deisebwyr am i Asiantaeth yr Amgylchedd ddiwygio'r drwydded ddrafft newydd ar gyfer Gorsaf Bwer Aberddawan, fel y'i cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2007, ac yn gofyn am newidiadau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

Dod â'r adolygiad o dechnoleg SCR (gostyngiad catalytig detholus) ymlaen i fis Ionawr 2009, yn hytrach na 2012

Parhau i fonitro $NO_2$ (nitrogen deuocsid) $SO_2$ (sylffwr deuocsid) ar safle Font-y-Gary

Rheoli allyriadau llwch, NOx (ocsidiau mono-nitrogen) a mercwri ar y safle prosesu lludw

Ychwanegu gofynion i sicrhau bod y trwyddedai'n mesur gronynnau llwch PFA (llwch tanwydd maluriedig) tra mân a'r peryglon sy'n codi pan gânt eu hanadlu neu eu hamlyncu oherwydd eu bod mor fân ac oherwydd eu cyfansoddion cemegol.

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Ionawr 2008